Mae'r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd i fod i adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisiâu, nodau ac amcanion HCC, gwerthuso'r tebygolrwydd o'r risgiau hynny'n digwydd ac effaith hynny, a'u rheoli'n effeithlon, effeithiol a darbodus. Rhoddir arweinyddiaeth i'r broses o reoli risg trwy'r Bwrdd Cyfarwyddwyr, y pwylgior archwilio a'r tim gweithredol.

Mae'r cwmni'n dal i wneud cynydd o ran ei fframwaith rheoli risg a chaiff hyn ei adolygu drwy'r amser.

Y Fframwaith Risg

Mae polisi rheoli risg y cwmni yn elfen allweddol o'r reolaeth fewnol a fframwaith llywodraethu corfforaethol. Mae'n cynnwys ymagwedd HCC at reoli risg.

swyddogaethau a chyfrifoldebau, y broses rheoli risg a'i hadolygiad. Penir archwaeth risg HCC yn unol ag asesiad effaith y risg ar nodau, amcanion ac adnoddau ariannol y cwmni.

Corffestr Risg

Sefydlwyd corffestr risg sy'n nodi risgiau ac yn eu graddio yn ôl risg ac effaith. Caiff y gorffestr ei harchwilio'n rheolaidd gan y tim gweithredol a'i hadolygu gan y pwylgior archwilio.

Cynllun Dilyniant Busnes

Paratowyd cynllun drafft i ystyried sut y dylai HCC barhau i gynnal ei weithgareddau craidd pe bai trychineb yn digwydd. Cwblheir y gwaith yn ystod y flwyddyn sy'n dod.

Cynllun Corfforaethol

Mae HCC yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol MLC sy'n darparu amlinelliaid o'r ffactorau allweddol sy'n dylanwadu'r diwydiant ynghyd â chynlluniau manwl a gwyboddaeth ariannol gefndir.

Cynhyrchwyd Cynllun Corfforaethol ac adroddiad blynyddol a dogfen Gofyniad Cyfrifon ar y cyd â Ddra. Mae hwn yn nodi rhagofynion ffurf a chynnwys y Cynllun Corfforaethol a'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r graddfeydd amser a bennwyd gan Ddra ar gyfer eu cwblhau a'u cyflwyno.

Cynllun Busnes

Mae'r cwmni'n cyflwyno cynllun busnes blynyddol a chyllidebau i'w fwrdd. Cafodd y cynllun ar gyfer 2007/8 ei gymeradwyo yng nghyfarfod y cyfarwyddwyr ym mis Mawrth.

Adrodd Ariannol

Cyflwynir adroddiadau ariannol i'r Bwrdd bob mis, a rhoddir gwyboddaeth ychwanegol bob chwarter.

Adrodd Anariannol

Mae HCC wedi datblygu system fonitro a gwerthuso sy'n monitro canlyniadau ac allbwnau yn ôl targedau a nodwyd yn y cyfnod cynllunio busnes. Cynhelir adolygiadau rheolaidd gan bob adran a'r tim gweithredol i wneud yn siŵr fod canlyniadau'n cael eu cyflawni, bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n briodol a bod HCC yn rhoi gwerth yr arian i'r rhai sy'n talu ardoll iddo.

DATGANIADAU ARIANNOL

Hybu Cig Cymru (HCC)

Cwmni Cyfyngedig gan Warant

ADRDDIAD Y CYFARWYDDWYR

Y Fwyddyn yn Diveddu 31 Mawrth 2007

Mae'r cyfarwyddwyr yn cyflwyno gyda hyn eu hadroddiad blynyddol, ynghyd â datganiadau ariannol archwilledig y cwmni, ar gyfer y fwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2007.

1. Canlyniadau

Y gwarged ar gyfer y fwyddyn oedd £11,423

2. Prif Weithgaredd

Prif weithgaredd y cwmni yn ystod y fwyddyn oedd datblygu a hyrwyddo cig coch Cymru. Mae adolygiad llawn o'r fwyddyn i'w gael yn Adroddiad y Cadeirydd ac yn Cynnal Tŵf ac Adolygu Ein Targedau.

3. Y Cyfarwyddwyr a'u Buddiannau

Drwy gydol y cyfnod, y cyfarwyddwyr oedd y rhai a ganlyn:

Enw	Ymdd. / Pen.	Swyddi Cyfarwyddwyr/Buddiannau Eraill
E Bailey	pen. 4 Ebrill 2007	Cyfarwyddwr Dyffryn Seaside Estates Cyfyngedig ac NFU Mutual Partner yn Jones Peckover, Breton Dalby ac Oswestry Cattle Auctions
J H Breton	ymdd. 14 Gorffennaf 2006	Cadeirydd Partneriaeth Bwyd-amaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, Grŵp Themateg Gwledig WFFO a Choleg Pen-y-bont ar Ogwr
A S Horine	pen. 14 Gorffennaf 2006	ymdd. 4 Ebrill 2007
W F Hughes		Comisiynydd, y Comisiwn Cig a Da Bwy
J R Roberts		(Cadeirydd)
K J Roberts		Cyfarwyddwr, y Comisiwn Cig a Da Bwy (tan fis Mawrth 2007);
W G Roberts	pen. 14 Gorffennaf 2006	Gwasanaethau Masnachol y Comisiwn Cig a Da Bwy Cyfyngedig Cyf, Assured British Meat ac Assured Food Standard; prif swyddog dros dro Bwrdd Ardoliau'r DG (secondiad o MLC) (o fis Mawrth 2007)
G Shortland	ymdd. 2 Mehefin 2006	Cyfarwyddwr Welsh Farm Suppliers Cyfyngedig, Border Distribution Cyfyngedig, Border Distribution (2000) Cyfyngedig, Livestock Marketing Cyf, Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf ac Ardystio Bwyd Gymreig o Ansawdd Cyf, Aelod o Fwrdd llywodraethwyr IGFR
D K Thomas		
R J Bansaack	ymdd. 4 Mai 2007	(yn lle K Roberts)
R M Howells		(yn lle D K Thomas)
A M Owen	ymdd. 31 Mai 2007	(yn lle W G Roberts)
J M Thomas		(yn lle E Bailey)

Eiyyddion

Incwm Ardoll

Daw'r rhan fwyaf o incwm HCC o ardoll MLC sy'n cael ei chasglu o anifeiliaid sy'n cael eu lladd yng Nghymru. Am fod yr ardoll yn cael ei chasglu'n statudol, mae'n ofynnol i HCC i baratoi'r datganiadau ariannol yn unol a Llawlyf Adroddiad Ariannol y Llywodraeth. Caiff y datganiadau ariannol hyn eu hadolygu gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol mewn trafodaethau ag archwiliwyr annibynnol HCC.

Incwm Ardoll (£000)	Cyffredinol Hrywddo		Cyffredinol Hrywddo		Cyffredinol Hrywddo	
	2006-7	2005-6	2004-5	2003-4	2006-7	2003-4
Gwartheg	289	320	286	321	293	328
Defaid	1,427	1,588	1,472	1,469	1,370	1,410
Moch	11	10	8	13	8	12
1,727	1,812	1,918	1,766	1,803	1,671	1,750


Crynodeb Ariannol

Incwm	2006-7	2005-6	2004-5	2003-4
Ardoll	3,539	3,973	3,569	3,421
Grantiau	2,403	1,462	1,658	1,451
Gwasanaethau	45	23	36	11
Llog	65	42	42	25
6,052	5,500	5,305	4,908	
Gwariant				
Marchnata a Hrywddo	3,015	2,738	2,273	1,933
Dablygu'r Diwydiant	1,945	1,379	1,321	1,167
Cyfarrebu	440	602	532	487
Cyllid a Gweinyddu	628	716	533	483
6,028	5,435	4,659	4,070	


Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y gwarged cronodig yn £969k, mae'r Bwrdd wedi adolygu'r gronfa wrth gefn ac mae o'r farn y byddai'n ddoeth hwn i ddelio ag argyfwng annisgwyl neu amrywiad yn nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu lladd. Bydd y gronfa wrth gefn yn sicrhau y gall y cwmni ddal i weithredu am o leiaf 6 mis heb dderbyn unrhyw incwm, a hynny wrth ymgymryd a chyfran sylweddol o'i weithgareddau.

CRYNODEB ARIANNOL

INCWM



GWARIANT



PERFFORMIO YN ÔL TARGEDAU

Perfformiad

Targedau

Strategaethau

Hyrwddo cynhyrchion Cig Oen Cymru yn effeithiol er mwyn cynnal gwerth a chyfaint mewn marchnadoedd targed ac is-sectorau

1. Marchnad y DG: Hysbysbeion i'r defnyddwyr/ymgyrchwedd masnach/ymgyrchwedd o fusnes i fusnes
2. Allfforio: datblygu rhagleni i'r fasnach/defnyddwyr ar gyfer Cig Oen Cymru PGI

Hyrwddo cynhyrchion cig eidion Cymru yn effeithiol er mwyn cynnal gwerth a chyfaint mewn marchnadoedd targed ac is-sectorau

1. Marchnad y DG: Hysbysbeion i'r defnyddwyr/ymgyrchwedd masnach/5% o astudiaeth Defnydd ac Agwedd wedi'i chomisiynu gan HCC
2. Allfforio: datblygu rhagleni i'r fasnach/defnyddwyr ar gyfer Cig Eidion Cymru PGI

Gwella ansawdd a chost-effeithiolrwydd cynhyrchion cig coch Cymru

1. Datblygu rhaglen Ymchwil a Ymgymryd a deg prosiect dros y bum mlynedd nesaf
2. Seffidli mecanwaith trosglwyddo technoleg i drafod datblygiedau newydd
3. Datblygu rhaglen i wella geneleg ac iechyd i'r sectorau defaid a chig eidion
4. Datblygu fframwaith i gasglu gwypodaeth ar gyfer cymharhaeth rhwng fferm a fferm
5. Gwarcheidiad PGI ar gyfer Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru

Cyfnethu'r gadwyn gyflenwi ar gyfer cig coch

1. Cyflwyno cynlluniau hyfforddi i ffermwyr er mwyn deall gofynion prosiectau
2. Hwyluso prosiectau i wella effeithlonrwydd yn y gadwyn gyflenwi

Bod yn effeithiol wrth gyfathrebu gweithgareddau HCC a materion y diwydiant

1. Cael sylw yn yr holl gyhoeddiadau a chyfrngau perthnasol
2. Cyhoeddiadau a deunydd adnoddau
3. Gyfathrebu wneub yn wneub
4. Materion y diwydiant yn effeithio ar gyflenwad a gair

Cyflawni dros 75% o'r hyn a fwrddwyd
Cyflawni dros 80%
Cyflawniwyd. Cyflawniwyd.
Cyflawniwyd. Dros 70% yn ymwybodol o weithgareddau HCC
Cyflawniwyd. Cyflawniwyd
Cyflawniwyd. Cafwyd llwyddiant o adroddiadau misol i'r bwrdd



hanfodol yn diffinio ein daeryddiaeth, ein diwylliant a'n seyllfa genedlaethol mewn cyd-destun Ewropeaidd.

Yn ogystal, cynhyrchodd HCC gyfres o dafenni A4 i

gynhyrchwyr sy'n rhoi esboniad cryno ynghlŷn â mesurau

atalïol, symptomau a thriaiathau ar gyfer clefydau

tymhorol, ynghyd â start wal llwgar a deniadol sy'n

dangos lleoliadau marchnadoedd da byw, lladd-dai,

canofannau prosesu cig a masnachwyr cig yng

Nghyrru.

Bu HCC yn cefnogi dathliadau canmlwyddiant Clybiau'r

Ffermwyr Itainc a noddodd gystadieuath Ty Cymr'r

Flyyddyn yng Nghyrru.

Mae gwefan HCC www.hybuicigymru.org a Bwletin y

Farchnad misol yn cynnig y newyddion diweddaraf y

diwydiant i ffermwyr ynghyd â'r prisiau cyfartalog ar

gyfer da byw.

ysgolion uwchradd ledled Cymru i roi gwybod am fwyta'n iach a materion yn ymwneud â diet a maeth.

Mewn derbyniad yn Senedd i Aelodau Cynulliad

Genedlaethol Cymru, dadlennwyd cynllun wyth-pwynt i

alluogi ysgolion ledled Cymru i wella gwyboddaeth plant

am ddiēt, maeth a pharatoi bywyd.

Mae glasbrint HCC yn cynnig amrediad o fesurau, gan

gynnwys addysg fwyd orfodol i blant 1-14 oed, ac

mae'n galw am newid y cwticwlwm er mwyn creu

sesynau ymarferol dwbl o 100 - 120 munud er mwyn

rhoi mwy o brofiad ymarferol i blant.

Yn ystod y deuddeng mis diwethaf, mae HCC wedi


cynhyrchu amryw o gyhoeddadau technegol defnyddiol

gyda'r nod o helpu cynhyrchwyr i fod yn broffidiol.

Mae'r rhain yn cynnwys Llyfr Bach o Ffeithiau am Gig,

2006, sy'n ystyried yn fanwl y rhan bwysig y mae'r

diwydiant yn ei chwarae yn economi Cymru a'i ran



5. Trosglwyddo Gwybodaeth am Weithgareddau a Materion Perthnasol



Yn ystod y Sioe ym mis Gorffennaf, lanswyd CD Rom amlswyddogaethol ac amlieithog (Cymraeg, Saesneg, Ffrangeg, Sbaeneg, Eidaleg ac Arabeg) sy'n cynnwys deunydd i'w lawrwytho a ffeithiau ac ystadegau ynglŷn â chynhyrchu Cig Eidion Cymru a Chig Oen Cymru, Gwarant Fferm, statws PGI a dosbarthu carcasau cig eidion a defaid.

Hefyd, cynhyrchwyd gêm gyfrifiadurol ryngweithiol newydd gan HCC er mwyn gwneud plant yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd diet iach.

Yn ystod y flwyddyn, bu sioeau teithiol timau Technol a Maeth HCC yn ymweld â dros 3,000 o ddisgyblion mewn

Cafwyd cynulleidfra dda eto ar gyfer trydedd gynhadledd yr hydref HCC yng Nghosty'r Metropole, Llandrindod, ym mis Tachwedd 2006.

Cadeiriwyd y gynhadledd gan Gadeirydd HCC, Rees

Roberts, a'r prif siaradwr oedd Carwyn Jones AC, y

Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn

Gwiad. Roedd y siaradwyr eraill yn cynnwys y ffermwr

cig eidion arloesol, Simon Frost, a chynrychiolydd Welsh

Country Foods, Trevor Hanger.

Bydd HCC yn cynnal pedwaredd gynhadledd yr hydref i

fudd-ddeiliaid ar 15 Tachwedd 2007.

Bu ysgolion ac ysbysai o Borthmadog i Benfro ac o'r

Wyddgrug i Drefynwy yn cymryd rhan yn Diwrnod Cig

diwrnod oedd tynnu sylw at ddefnydd y sector

cyhoeddus o Gig Eidion Cymru. Cydlynwyd yr ymgyrch

gan Hybu Cig Cymru a chatwyd cefnogaeth gref gan y

Gweinidog Carwyn Jones, yr undebau amaethyddol,

proseswyr a chiggyddion yng Nghymru.

Atgyfnerthodd HCC ei swyddogaeth fel "Ty

Gwybodaeth" y diwydiant cig coch yng Nghymru, gan

hwylusor polisi i ddydd drwy bwylt mynediad

senegol a bu'n gweithio'n agos, ac yn llwyddiannus, mewn

partneriaeth ag Adran yr Amgylchedd, Cynllunio

a Chefn Gwiad Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef Adran

a ail-ffurfiwyd ar ôl cyfuno Awdurdod Datblygu Cymru

â hi.

Rhododd Sioe Frenhinol Cymru a'r Ffair Aeat gyfie

unwaith eto i HCC gysylltu â'r miloedd o fudd-ddeiliaid

sy'n ymweld â'r dda ddigwyddiad a rhoi gwylbod iddynt

am y gwaith a gwblhawyd ar eu rhan.





YN YSTOD Y FLWYDDYN, BU SIOEAU
TEITHIOL TIMAU IECHYD A MAETH HCC YN
YMWELD Â DROS 3,000 O DDISGYBLION
MEWN YSGOLION UWCHRADD LEDLED
CYMRU I ROI GWYBOD AM FWYTA'N IACH A
MATERION YN YMWNEUD Â DIET A MAETH.



- Bu HCC yn cynorthwyo ffermwyr i weld pa mor gystadleuol ydynt, trwy feincnodi, sef asesiad gwella busnes y fenter. Helyd, anogir ffermwyr yng Nghymru i edrych yn ofalus ar eu costau o ddydd i ddydd. Bob blwyddyn bydd HCC yn cymryd cipfun o gostau cynhyrchu ar ffermydd cig oen a chig eidion ledled Cymru, a chaffi canlyniadau'r arolwg eu lledaenu'n eang. Nododd HCC helydd ar gwrs 12-mis ar gyfer gradd Meistr mewn Gwyddor a Thechnoleg Cig ym Mhrifysgol Bryste, ac mae HCC helyd yn cefnogi 12 o ysgoloriaethau ymchwil (PhD ac MSc).
- Mae prosiectau Ymchwil a Datblygu HCC ar hyn o bryd yn cynnwys:
 - Gwerthuso system awtomatidd ar gyfer dosbarthu carcasau a rhagfnygri cymnyrch cig
 - Datblygu mynegri dewis ami-nodwedd ar gyfer gwella defaid hirwlanog;
 - Defnyddio marcwyr genynnau i wneud penderfyniadau mwy effeithiol a chynharach wrth ddevis defaid;
 - Datblygu gweithdrefnau i ddarganfod gwahaniaethau mewn ymwrthedd genedig i fraenedd y traed mewn defaid;
 - Darparu gwybodaeth am berfformiad atgenhedlu, twf a chydffurfriad carcasau mamogiald croesfrid ar diroedd uchel;
 - Fennu meincnodau perfformiad y ffwch ddifa Holstein fodern sy'n cael ei bwydo ar bortfwyd yn yr hydref/gaeaf;
 - Asesu effeithiau economaidd, lles ac amgylcheddol y genyn cyhyredd-dwbl mewn gwartheg;
 - Fennu'r berthynas rhwng protein cig a themlo'n llawn ar ol bwyta;
 - Fennu effaith bwyta cig coch yn rheolaidd ar statws haearn menywod;

- Effaith rhyw'r anifail ar ansawdd cig oen;
- Meincnodi'r berthynas rhwng pH a thymheredd mewn canolfannau cig eidion masnachol.
- Mae cyllid trwy'r Rhaglen Datblygu Defaid ac Eidion wedi galluogi ymgymryd â'r prosiectau a ganlyn:
 - Prosiectau Ffermydd Arddangos
 - Y Prosiect Croesfridiau - gwerthusiad o berfformiad mamogiald ac wryn croesfrid ar fynyddoedd Cymru
 - Cynllun Gweithredu Parasitoleg i Gymru
 - Meincnodi
 - Cynlluniau Iechyd Gwartheg
 - Cynfeinioedd bioamrywiol
 - Prosiectau Datblygu
 - Ffermydd Monitro Parasitoleg
 - Parasitiaid Mewnol mewn Cig Defaid yng Nghymru
 - Arolwg o Ectoparasitiaid Defaid
 - Dewisiadau Ymarferol yn lle Gwasarn Gwellt
 - Dewisiadau Rheoli Da Byw yng Nghymru yn y Gaeaf (IGER yn bartner arweiniol)



methodolegau newydd, a gafodd eu datblygu drwy gyfrwng prosiectau ymchwil a datblygu HCC a thrwy ymchwil prif ffrwd arall.

Golygodd hyn y gwnaed cynydd sylweddol yn ystod y cam hwn o'r Rhaglen Datblygu Defaid ac Eidion ar adeg pan fu incwm ffermydd dan bwysau sylweddol a phan fo ansicrwydd ynghŷn â'r newidiadau i strwythur cymorthdaliadau.

I rai, croesawyd yr egwyddorion o ddatblygu busnes, diogelu'r amgylchedd a chanolbwyntio ar y farchnad a chawsant eu gweithredu â llwyddiant amwng o ran gwell elw a chynnaladwydd.

Mae'r newid a chynydd parhaus o fewn y diwydiant yn goiygu ei bod yn hanfodol darparu'r wybodaeth ddiweddaraf, defnyddio dulliau newydd i gyfathrebu a chael canolbwynt yn unswydd ar gyfer trosglwyddo negesau allweddol. Rhaid gwneud hyn drwy'r amser er mwyn gwneud yn siŵr fod ffermyr yng Nghymru'n dal i gynhyrchu mwy ac yn diwallu gofynion y farchnad yn well.

Mae egwyddor HCC o gael cyfranogiad ehangach gan y diwydiant trwy gyfrwng dysgu mewn grwpiau megis grwpiau tafod Ffermydd Arddangos HCC wedi hen enill ei bwyf. Yn ystod y flwyddyn cafodd ei ddatblygu fwyfwy i drosglwyddo gwybodaeth gyfrdol mewn amryw o o gyfarfoddydd ar ffermydd - a bu hyn yn effeithiol o ran derbyn a throsglwyddo gwybodaeth.

Hefyd, yn ystod y flwyddyn, defnyddiodd HCC gymorth prosiectau i ddod â phartneriaid at ei gilidd ar draws diwydiant a chael yr enillion gorau posibl. Enghraifft lwyddiannus o weithredu drwy bartneriaeth oedd y Cynllun Gweithredu Parasitoleg i Gymru, pan fu grwp cynrychiadol yn ymateb i fygythiad cynyddol ymwrthedd gwrthlyngryol i gynhyrchu defaid yng Nghymru. Cynhyrchwyd strategaeth gyfathrebu eang gan gynnwys 24 o o erthygliau a datganiadau newyddion cyffredinol a delialog uniongyrchol â dros 1050 ffermyr.

Cafodd cam olaf Cyswilt Ffermio (Cam 2) a ddechreuodd ym mis Hydref 2003, ei gwblhau ym mis Mawrth 2007. Cynhaliwyd dros 600 o ddiwyddiadau ac ooddeutu 150 o gyfarfoddydd. Mynychwyd y rhain gan 13,000 o ffermyr. Fel rhan o'r rhaglen hon, cynhaliodd HCC 28 o Ddiwmodau Agored ar ffermydd er mwyn lledaenu gwybodaeth ymarferol oddi mewn i'r rhydwraith o 18 o Ffermydd Arddangos a'u Grwpiau Tafod cysylltoli. Mae dros 4,700 o ffermyr wedi mynychu'r gwahanol gyfarfoddydd a diwmodau agored a dywedodd tua hanner y rhai a fu'n bresennol eu bod yn bwriadu defnyddio dulliau newydd o o gynhyrchu ar eu ffermydd. Mae dros 1000 o ffermyr wedi manteisio ar gyfie i dderbyn hyfforddiant yn ystod y cyfnod; roedd yr 85 o gyrstau dewis carcassau ar gyfer y gadwyn gyflenwi gyfan yn boblogaidd. Bu staff HCC yn cydlynu'r cais i ddarparu cyngor technegol i dros 345 o ffermyr.

Paul Morris, Giffach, Arberth ac Emyr Wyn Owen, Bronferiaeth, Bae Colwyn, oedd dau enillydd ysgoloriaeth Cyswilt Ffermio HCC ar gyfer 2006.

Gan droi at rai o'r prif brosiectau, mae Prosiect Gwella *Ansawdd Cig Eidion Cymru* yn hyfforddi ffermyr mewn dulliau modern o reoli technyd a gwella brid ac yn helpu mentrau i gyflwyno geneteg uwchraddol i'w buchesi. Cafwyd all gyfnod gaef prosiect arloesol HCC, *Naddion Fren yn Wasarn*; y nod yw dangos ymarferoldeb a'r manteisio posibl o o ddefnyddio naddion pren yn lle gwellt yn wasarn dan do i watheg a defaid.

Bu Hybu Cig Cymru yn ariannu arborfion a wnaed gan naw ffermyr defaid o ardal Llangwryfton ger Aberystwyth a ddechreuodd fwydo'u hwy'n ar gynnyrch cwbl naturiol sy'n cynnig lfeleau uwch o asidau brasterog Omega 3, sy'n help i atal clefyd y galon.

Eto, bu HCC yn gweithio gyda'r sector lladd-dai yng Nghymru er mwyn rhoi gwell adborth i ffermyr ynghŷn â gwrthod carcassau ac offal, gan roi cyfle i ffermyr wneud penderfyniadau gwybodus er mwyn bod yn fwy effeithlon.



3. Gwella Ansawd a Chost Effeithlonrwydd Cynnyrch Sylfaenol a Cyfnewthu'r Gadwyn Gyflenwi Cig Coch

Ym mis Mawrth cyhoeddodd HCC ddadansoddiad strategol pwysig i ragfynegi a dadansoddi tueddiadau a symudiadau a ragweilir yn y diwydiant cig coch yng Nghymru ar gyfer y 13 blynedd nesaf.

Roedd "Y Setyllfa a'r Rhagolygon tan 2020 i'r Diwydiant Defaid a Chig Eidion yng Nghymru" yn ystyried yr angen am ymagwedd unedig a allai wneud defnydd effeithiol o'r wybodaeth dechnegol sy'n bodoli er mwyn manteisio ar gyfnewtiau cynhenid y diwydiant yng Nghymru, a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau a'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant.

Roedd yr adroddiad, a lanswyd gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Carwyn Jones, mewn derbyniad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan HCC yn y Senedd yng Nghaerdydd, yn archwilio profi ddyliawadau'r diwydiant defaid a chig eidion yng Nghymru - rheolaeth, dylanwad cyfreidol y farchnad, y bridiau a ddefnyddir, yr hinsawdd, y math o fferm a'r dopographeg – ac awgrymmodd yr hyn a allai ddigwydd yn y dyfodol.

Ym marn yr adroddiad, ni fyddai'r ffactorau amgylcheddol yn newid yn gryflyn yn y tymor byr ond gall y ffactorau economaidd newid dros y tymor canolig. Awgrymwyd taw'r ffordd fwyaf effeithiol i gynhyrchwyr wella'r diwydiant yw gwella perfformiad technegol defaid a gwartheg Cymru, a bod modd gwneud hyn yn y tymor byr a'r tymor canolig.

Yn 2006/07, bu HCC yn hwyluso cydlyniant canolog Rhagen Ddatblygu Defaid ac Eidion Cyswilt Ffermio ar draws Cymru, er mwyn gallu bod yn gost effeithiol wrth gyflwyno amrediad llawn o weithgareddau cymorth a throsglwyddo technoleg i ffermwyr cig eidion a chael gan gymnig y manteision gorau posibl a chael cynhyrchedd sylweddol.

Yn ogystal, bu'n gyfte i gyfuno'r egwyddortion hyn pryd bynag y bu modd a'u hyrwyddo'n gyffanol yn y sectorau cig eidion a defaid. Hefyd, mae'r prosiectau a'r gweithgareddau a wnaed wedi hybu technolegau a modd i farchnata eu cynhyrchion. Fodd bynnag, mae Cymru'r adnoddau i gynhyrchu cig oen a chig eidion, a'r Dywedodd yr adroddiad hefyd fod gan gynhyrchwyr

Mae'r cynnyrch y pen, sef yr wyn/llol sy'n cael eu magu a phwysau'r cig oen/cig eidion a gynhyrchir, yn hollbwsig o ran dangos profffidoleb mentrau. Wrth gyfuno'r eneteg, maeth a rheolaeth gywir, mae modd cael y cynnyrch gorau dan yr amgylchiadau a rheolir costau yn ogystal.

Yn ystod y flwyddyn, llwyddodd HCC i gyrraedd yr holl dargedau cynnyrch ar gyfer ei weithgaredd craidd.

Mae rhwydwaith fewnol HCC ar gyfer rheoli a gweinyddu wedi darparu tîm ymroddedig o staff profidol i gynnal tri philer allweddol Cyswilt Ffermio, sef hyrwyddo datblygu busnes ac ymwybyddiaeth ohono; diogelu a gwella'r amgylchedd; a rhoi mwy o sylw i'r farchnad a chodi ymwybyddiaeth ohoni.

Ar flaen llawer o'r gwaith a wnaed yn ystod y deuddeg mis hyn, roedd y rhyngebwrthynas sy'n cyd-daro'n gynyddol rhwng y diwydiant da byw a gofalu am faterion yn ymwneud â'r amgylchedd yng Nghymru.



RHAID GWELLA PERFFORMIAD I WNEUD
YN SIŴR FOD CYNHYRCHEDD YN CAEL
EI GYNNAL A BOD PROFFIDIOLDEB YN
CAEL EI GYFLAWNI



Yn flaenorol, roedd HCC wedi penodi arolygaeath annibynnol i ddilysu sicrwydd a diogelu cywirdeb statws PGI Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru.

Mae'r statws PGI gwerthfawr sydd gan frandiau Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru yn dal i fod yn effen bwysig o weithgaredd HCC i wahaniaethu ei gynhyrchion cig coch yn amlwg oddi wrth gynhyrchion ei gystadleuwyr. Mae PGI yn chwarae rhan flaenllaw yn yr ymdrechion i wella'r cyfleoedd i werthu yn y Dg ac Ewrop, mae'n ganolbwynt i gynlluniau HCC ar gyfer prosiect newydd yn ymwneud â'r gwasanaeth bwyd ac mae'n ganolog i wath hysbysbu ac allforio HCC.

2. Adeiladu Cynhyrchion sy'n Amlwg yn Wahanol

Mae datblygu cynhyrchion yn rhan bwysig arall o wahaniaethu ac ar y stondin yn Sioe Frenhinol Cymru coronwyd nifer o gigyddion o Gymru yn Bencaampwr Cymru-gyfan yn rownd derfynol Gwobrau Gwerthuso Cynhyrchion HCC 2006. Yn gynharach yn y flwyddyn, cyflwynwyd 342 o gynhyrchion - mwy nag erioed o'r blaen - gan gigyddion annibynnol yn rownd ragbrofol de Cymru yn y gystadleuaeth flynyddol.





Bu'r ddau ben-cogydd yn cynorthwyo mewn digwyddiadau hyrwyddol a chyfrngol yn eu tai bwta eu hunain, a daeth Carlo i Sioe Ffrenhinol Cymru. Parhaodd HCC i roi cymorth mawr i gigyddion anniynnol ledled Cymru. Cafwyd cyfres lwyddiannus o lyfrnau rysetiau pwynt-talu yn y gwanwyn, ymgyrch prdau i gadw'n gynnes yn yr hydref a'r gaeaf, thema Nadoligaidd a hyrwyddiad "Yn Arbenig i Chri" ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi.

Cafwyd ymgyrch cynhwysfawr dros gyfnod o chwe wythnos yng nghychronau llw'r papurau newydd *The Times*, *Sunday Times*, *Observer*, *Mail On Sunday* ac *Independent on Sunday* – yn ogystal ag mewn cyhoeddiadau blaenllaw eraill ar gyfer defnyddwyr a masnach.

Dilynwyd hyn gan ail ymgyrch yn y cyfnod cyn Dydd Gŵyl Dewi ac roedd hysbysion Cig Eidion Cymru i'w gweld hefyd yn ystod y gem rygbi rhwng Cymru a Lloegr yn Stadïwm y Mileniwm, Caerdydd.

Cafodd yr hysbysion teledu poblogaidd ar gyfer Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru eu dangos yn ystod tair sesiwn o fis yr un - yn yr hydref (cig oen) ac yn y cyfnod cyn y Nadolig a Dydd Gŵyl Dewi (cig eidion). Am y tro cyntaf bu HCC yn hysbysbu'r ddau frand cig coch ar y teledu yn Ffrainc. Darlledwyd y gyfres o hysbysion 15-egoriaid boblogaidd Bon Appetit Bien Sur ar FR3 IdF: Regional, gorsaf sy'n targedu marchnad y defnyddwyr ym Mharis.



1. Hyrwyddo Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru a Chynhyrchion Cig Coch yng Nghymru, y Dg ac Ewrop

Daeth y gwaharddiad ar gig eidion o anffiliaid dros 30 mis oed i ben ym mis Mai – ac o fewn 24 awr i'r cyhoeddiad, roedd HCC ac allforwyr yn sioe fasnachol bwysig Cibws yn yr Eidal i ail-lansio Cig Eidion Cymru ar y farchnad ac i fantaisio ar y ffaith fod HCC yn noddi tim rygbi cenedlaethol yr Eidal.

Yn ystod dyddiau olaf y gwaharddiad, bu HCC yn gweithio'n galed i gynnal cysylltiadau da â'r marchnadoedd Ewropeaidd gyda chymorth perfformiad da gan Gig Oen Cymru pan welwyd cynydd o ymron i 60 y cant yn y gwerthiant mewn rha! gwledydd UE.

Roedd Cibws yn un o bllith nifer o arddangosfeydd a digwyddiadau pwysig o amgylch Ewrop a fynychwyd gan HCC ar ran y diwydiant - yn aml gyda chynrychiolwyr o'r diwydiant - er mwyn hybu gwerthiant Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru yn ystod y flwyddyn.

Cyhoeddodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Cherf Gwlad, Carwyn Jones, agoriad marchnad yr Emirataethau Arabaidd Unedig i Gig Oen Cymru ar ôl iddo arwain ymgyrch farchnata gan Dim Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru /HCC a helpu i berswadio swyddogion fod yna fantaisio o brynu Cig Oen Cymru. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn bu HCC yn Fair Fwyd y Gwlff yn Dubai.

Er mwyn codi proffil y ddafrand yn Ewrop, cafodd HCC gymorth dau ben-cogydd a dwy seren Michelin, sef Alain Ducourner, o dy bwyta Carré des Feuillants ym Mharis a Carlo Cracco, o dy bwyta Cracco-Pek ym Milan.

ER GWYBODAETH I BAWB – GWEITHGAREDDAU A CHYFLAWNIADAU 2006-7





BU HCC YN GWEITHIO'N GALED I GYNNAL
CYSYLLTIADAU DA Â'R MARCHNADOEDD
EWROPEAIDD GYDA CHYMORTH PERFFORMIAD
DA GAN GIG OEN CYMRU PAN WELWYD
CYNNYDD O YMRON I 60 Y CANT YN Y
GWERTHIANANT MEWN RHAI GWLEDYDD UE



TUAG AT DDIWYDIANT MWY CYSTADLEUOL: BLWYDDYN O GYFNERTHU AC ADEILADU Gwyn Howells, Prif Weithredwr HCC

Rodd y flwyddyn sy'n cael sylw gan yr adroddiad hwn, sef 2006-7, yn gyfnod pan fuwyd yn cyfnerthu cyn symud ymlaen.

Rodd hi'n bwysig i HCC wneud y gorau o gynydd y deuddeng mis blaenorol ac, yn anad dim, i ehangu yn y meysydd hynny a fyddai fyaf manteisiol i'r diwydiant yng Nghymru.

Mae'n dda gennyf ddwed fod ein Bwrdd Cyfarwyddwyr, ein partneriaid, budd-ddeliliaid a staff, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wedi cyfuno'n ddoeth ac yn effeithiol i wneud yn siwr fod Hybu Cig Cymru wedi cytraedd a gwneud yn well na'r amrediad eang o dargedau cyflawni a bennwyd ddechrau'r flwyddyn.

Yn benodol, mae staff HCC wedi gweithio'n ddiffino i weithredu ein strategaeth a rhaglen o weithgareddau

hirdymor, ac rwy'n diolch iddynt am eu cefnogaeth a'u hymdrechion.

Mae'n dda gennyf allu manylu yma ynghylch a blwyddyn brysur o weithgaredd hyrwyddo, marchnata a datblygu'r diwydiant. Mae'r gwaith hwn, a wnaed ar eich rhan yn ystod y deuddeng mis diwethaf, yn cael ei restru ar y tudalennau a ganlyn.

Hefyd, hoffwn ddiolch i'r rhai a fu'n helpu Hybu Cig Cymru (HCC) i gynnal ei dwf yn ystod y deuddeng mis diwethaf - y partneriaid cyllido a phrosiectau a ddaeth at ei gilydd i alluogi perfformiad mor effeithiol gan y casglad hwn o gynlluniau cymorth Cymru-gyfan, cynlluniau i gynig manteision sylweddol i'r budd-ddeliliaid yn y gadwyn gyflenwi.





MAE HCC YN DARPARU RHAGLEN DREIGL
O WAITH I FARCHNATA, HYRWYDDO A
DATBLYGU'R DIWYDIANT ER MWYN
HELPU'R DIWYDIANT YNG NGHYMRU
I FOD YN GRFYFACH A MWY CYSTADLEUOL



fres o ansawdd da. Ochr yn ochr â rhaglen o ymdrechion parhaus i gymell mwy o ddefnydd o gynhyrchion cig coch o Gymru yn y sector cyhoeddus, gwnaeth HCC un ymriad profïl uchel i godi ymwybyddiaeth o Gig Eidion Gymru yn sylweddol ymhith y cyhoedd, sef cynnal Diwrnod Cig Eidion Cenedlaethol ledled Gymru ar 4 Hydref 2006.

Mae HCC yn dymuno gwneud mwy i gymell ein diwydiant gwasanaeth bwyd i ddefnyddio ein cig lleol o ansawdd da. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn dod â phrosiect gwasanaeth bwyd Gymru gyfan at ei gilysedd er mwyn ysgogi a helpu i feithrin cysylltiadau â busnesau twristiaeth a manau gwerthu bwyd ledled Gymru.

Hoffwn ddolich i aelodau Bwrdd a staff Hybu Cig Gymru am eu cyfraniad gwerthfawr at y sefydliad dros y deuddeg mis diwethaf.

Dioich o galon hefyd i'n partneriaid - Undeb Amaethwyr Gymru, y Comisiwn Cig a Da Byw, NFU Gymru, Llywodraeth Cynulliad Gymru, Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Gymru, Cymdeithas Arwerthwyr Da Byw Gymru a Chymdeithas Cyflenwyr Cig Oen a Chig Eidion Gymru.





ngweth y cig oen a brynwyd yng Nghymru yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, pan gafwyd cynnydd o dri y cant yn unig ledled Prydain.

Gwariwyd dros saith y cant yn fwy ar gig eidion yng Nghymru mewn cymharfaeth â chynnydd o ddim ond dau y cant ledled Prydain – a hynny er bod y cynnydd cyfartalog yn y pris yng Nghymru oddeutu ddwywaith yn fwy nag ym Mhrydain gyfan.

Mae'r gwerthiannau cartref hyn yn adlewyrchid cywir ymrwn o'r cyfnod pan oedd gweithgareddau eang gan HCC i hysbysu, marchnata a hyrwyddo brandiau Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru yn cael yr effaith fwyaf. Roedd y gwerthiannau dramor hefyd yn dda iawn. Ar y cyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru, datblygodd HCC farchnadoedd allforio newydd. Cyhoeddodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chetn Gwlad, Carwyn Jones, agoriad marchnad yr Emirataethu Arabaidd Unedig i Gig Oen Cymru ar ôl iddo arwain ymgyrch farchnata gan Dim Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru/HCC a helpu i berswadio swyddogion fod yna fanteision o brynu Cig Oen Cymru.

Cyhoeddodd HCC yn ystod y flwyddyn fod allforion Cig Oen Cymru wedi cynyddu'n sylweddol ym marchnadoedd sefydledig yr Eidal, Ffrainc, Gwlad Belg a gwledydd allweddol eraill yn Ewrop. Rhwng mis Mehefin a mis Awst gafwyd cynnydd o 1,300 tunnell fetrig i ymrwn i 1,900 tunnell fetrig yn allforion cig defaid o Gymru i'r Byd – sy'n golygu cynnydd gweith ymrwn i fillwn o bunnau yn ystod y cyfnod byr hwn.

Mae'n amlwg fod y cynnydd hwn yn berthynol i'r ffraith fod y diwydiant yng Nghymru erbyn hyn, trwy ddylanwad cydlynol HCC, yn dylanwadu ar farchnadoedd pwysig, a oedd y tu hwnt i'n cyrraedd rai blynyddoedd yn ôl.

Ers ei sefydlu mae HCC wedi arwain y ffordd wrth alw ar sefydliadau yn y sector cyhoeddus i ddefnyddio cig lleol

Oen Cymru o ansawdd ar werth yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ac mae angen i'r diwydiant annog mán-werthwyr i beidio â chefnu ar gig oen cartref er mwyn prynu mewnforion rhatach.

Roedd ymateb y defnyddwyr i'n cynhyrchion brand Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru yn ystod 2006-7 yn bositif iawn. Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd ein sefydliad ymchwil marchnata annibynnol ystadegau da iawn ynghyd â'r defnydd o gig coch Cymru yng Nghymru ei hun. Cafwyd cynnydd sylweddol o 17 y cant yng ngwerthiant cig oen yn ystod y cyfnod perthnasol o ddim deuddeng mis – mewn cymharfaeth â chynnydd o ddim ond un y cant ledled Prydain yn ystod yr un cyfnod. Cafwyd cynnydd anhygoel o ddegain y cant yng





Mewn sefyllfa o'r fath mae gwaith technegol, trosglwyddo technoleg a gwella geneiteg gan HCC yn hanfodol er mwyn helpu'r diwydiant i symud ymlaen ar hyd y llwybr anodd tuag at elw – a pharhaodd y gwaith hwn yn 2006-7. Mae *Prosiect Gwella Ansawdd Cig Eiddon Cymru* sy'n werth £2.2m ac a gafodd gymorth gan Amcan 1 yr UE yn enghraifft o fentr arloesol a chwblgymerais yn cael ei harwain gan HCC.

Fodd bynnag, rhaid i ni helpu'r geisio gwneud yn siŵr fod y cynhyrchwyr sy'n ceisio gwneud elw yn cael chwarae teg i wneud hynny. Dyna pam y gofynnais ym mis Ionawr eleni am adolygiad diymdroi o bolisi prynu'r archfarchnadoedd er mwyn helpu i atal y dirwasgiad gaeafol ym mhirsiau wryn yng Nghymru, mewnforton diangen a difrod amgylcheddol. Credaf yn gryf fod man-
wertwyr yn rhy lym wrth fabysiadu polisi prynu tymhorol sy'n ffafrio mewnforton.

Er ei bod yn dda genyf sôn am lwyddiannau HCC o ran allfforo, brandio, hysbysu, sbarduno newid technolegol a helpu i wella'r defnydd o'n cynhyrchion yn y DG, mi wlad fod genym lawer o waith anodd i'w wneud o hyd i helpu ffermwyr i addasu i ofnyon neuwydd caeth y farchnad a'r newid i'r system gymorthdaliadau. Mae cynaliadwyedd hirdymor yn hollbwysig os ydym i barhau i fod yn gystadieuol, yn broffidiol – a thwy wneud hynny, fe fyddwn yn diogelu ein traddodiadau, ein hamgylchedd a'n ffordd o fyw yn y Gymru wledig. Wrth wraidd hyn mae'r cysyniad o gynhyrchu'r math o gig oen a chig eiddon y mae'r defnyddwyr yn dymuno ei gael – a hynny am bris cynaliadwy.

Gyda hyn mewn golwg, mae'n bwysig i ni barhau i atgoffa ein cwsmer senigl mwya, sef man-werthwyr cadwyn y DG, am eu cyfrifoldebau corfforaethol a chymdeithasol i'n helpu i gyrraedd y nodau hyn. Ebyn hyn mae dau o bob tri o'r wryn a werthir yn cael eu prynu gan yr archfarchnadoedd yn y DG; felly, catodd eu polisi ynglŷn â phrynu effaith ddifrifol ar brisiau wryn. Mae Cig

wedi'i ennill ledled Ewrop yn y cyfanser. Llywoddod yr ymdrechion i ddwyn ffrwyth yn ystod y flwyddyn, gyda Chig Eiddon Cymru yn adennill ei blwyf.

Yn strwythurol, golygodd diwygi'r PAC a newidiadau i'r system gymorthdaliadau fod y diwydiant, ar lefel ymarferol, yn symud i mewn i dirioogaeth anhysbys ond roedd ganddo nifer o gyflleoedd da o hyd a oedd yn destun calondid.

Ymdrechodd HCC i gael gwared ar rai o ffactorau anhysbys y dyfodol drwy gychwyn dadansoddiad strategol sylweddol i geisio adolygu'r tybiaethau strategol presennol a hefyd i fframio'r ffordd ymlaen i'r diwydiant dros y 13 blynedd nesaf. Cyhoeddwyd y gwaith cyflawn, "Y Sefyllfa a'r Rhagolygon tan 2020 i'r Diwydiant Defaid a Chig Eiddon yng Nghymru", ym mis Mawrth.

Roedd y casgliadau penawd yn awgrymu y gall ffactorau economaidd newid dros y tymor canolig, gan gysylltu pwasau ariannol a pholisiau amgylcheddol i'r posibilrwydd o oslyngiad yn nifer y defaid a'r gwartheg. Roedd angen gwell perfformiad i wneud yn siŵr fod y lfeiliau cynhyrchedd yn cael eu cynnal a bod elw'n cael ei wneud.

Mae un fantasia bwerau yn parhau gyda'r ffermwyr yng Nghymru, sef ansawdd y cynnyrch. Mae gwerthoedd traddodiadol a thechnegau modern yn greigwely i'n cynhyrchion uchel eu parch i ni addasu o hyd i newid technolegol a manteision genetig os ydym i barhau i lwyddo yn ein hymdrech i fod yn broffidiol. Dangosodd ein harolwg diweddaraf o gostau cynhyrchu cig eiddon fod yna wahaniaeth mawr rhwng y ffermydd sydd ar y brig a'r rhai sydd ar y gwaelod. Mae'n hanfodol i'n holl ffermwyr newid eu hymagwedd at ffermio yn wneud natur y farchnad yn yr 21ain ganrif - neu fe fydd ein diwydiant yn dioddef caledi economaidd sylweddol ac effail newid strwythurol digreoso hyd yn oed ymheno ynglŷn â phrynu effaith ddifrifol ar brisiau wryn. Mae Cig



MAE GWERTHOEDD TRADDODIADOL A
THECHNEGAI MODERN YN GREIGWELY I'N
CYNHYRCHION UCHEL EU PARCH – OND RHAIID I NI
ADDASU O HYD I NEWID TECHNOLEGOL A
MANTEISION GENETIG OS YDYM I BARHAU I
LWYDDO YN EIN HYMDRECH I FOD YN BROFFIDIOL.



ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Rees Roberts

Mae HCC mewn bodolaeth bellach ers pedair blynedd – ac yn dilyn deuddeng mis arall o weithgareddau cadarn i ddatblygu, marchnata a hyrwyddo ein diwydiant, mae budd-ddelliaid yng Nghymru wedi bod yn dyst i gynnydd positif yn y sector cig coch am y bedwaredd flyddlyn yn olynol.

Ym mis Mehefin, cyhoeddodd Carwyn Jones AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwiad, y byddai HCC yn cael ei gadw fel awdurdod cig coch ar wahan yng Nghymru ar ôl ymgynghoriad yng Nghymru ynghyd â chanlyniadau Adolygiad Annibynnol o Gyrrff Ardol Amaethyddol a Garddwriaethol gan Rosemary Radcliffe ar ran Gweinidogion y Weinnyddiaeth Ddatganoledig yn y DG.

Roedd cefnogaeth a sel bendith y Gweinidog o berfformiad HCC hyd yma a'r ffaith fod y sefydliad yn chwarae rhan bwysig yn nyfodol y diwydiant yn hwb enfawr i'r cyfarwyddwyr a'r staff.

Fel canlyniad i'r Adolygiad o'r Byrddau Ardol, bydd HCC yn newid rhywfaint er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd. Fodd bynnag, bydd HCC yn dal i allu gwella fwyfwy ei enw da am hollgyhwyssedd a bydd yn gallu denu mwy o gefnogaeth, ysgogiad, cymorth, cyngor a rhyngweithiad fel bod ffermwyr Cymru'n cael yr enillion gorau posibl o'r farchnad.

Yn ystod y deuddeng mis diwethaf, bu chwech cyrchnod strategol sefydledig yn sylfaen i wath HCC ar ran budd-ddelliaid yng Nghymru:

- ceisiodd HCC wahaniaethu ein cynhyrchion cig coch ar sail ansawdd, gan bwysleisio eu statws Dynodiad Daearyddol Gwarchoddedig (PGI) – dyfarniad unigryw'r Undeb Ewropeaidd i fwyd rhanbarthol arbennig o safon.
- bu strategaethau cyflawni HCC wrth wraidd ein hymdrechion marchnata a hyrwyddo yn y marchnadoedd manwerth gartref a thramor a'n gwath gyda'r sector gwasanaeth bwyd;

- bu HCC yn ymdrechu i gyfrnethu'r negesau brand canolog ar gyfer Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru gan sicrhau ymwybyddiaeth barhaus ac ehangach o gig coch Cymru o fewn y marchnadoedd targed;
- mae HCC wedi hwylyso gwelliant technegol a rhagoriaeth fridio ledled Cymru drwy gyfarwyddo rhaglen ranbarthol ddylanwadol i ddatblygu'r diwydiant yn strategol. Mae hyn wedi cyfrannu at welliannau mewn iechyd amfellaidd, cyflwyno technoleg newydd a hybu cystadleugarwch.
- mae HCC wedi gweithio gyda phartneriaid allweddol er mwyn cryfhau'r gadwyn gyflenwi cig coch;
- mae HCC wedi dal i wella'r ffordd y mae'n cysylltu â'i fudd-ddelliaid ynghyd â'i weithgareddau.

Mae HCC, dan ddylanwad yr amcanion strategol hyn, yn darparu rhaglen dreigl o wath i farchnata, hyrwyddo a datblygu'r diwydiant er mwyn helpu'r diwydiant yng Nghymru i fod yn gryfach a mwy cystadluol.

Dechreuodd y flyddlyn â chynnod o beth ansicrwydd - ond o optimistaeth sylweddol yn ogystal. Daeth y gwaharddiant ar allforio cig eidion i ben ar ôl misoedd o ymdrechion gan y diwydiant ac ail-agorwyd y marchnadoedd Ewropeaidd i'n cynhyrchion Cig Eidion Cymru. Roedd yn rheswm ddiys dros ddatlu – ond hefyd yn amser i wath calad.

Roedd y gwaharddiant gwreiddiol ar allforion wedi rhoi trefn ar allforio dros 250,000 tunnell fetrig o gig eidion, gwerth £700 miliwn, o'r DG – a cholwyd cyfran sylweddol o'r farchnad i gystadluwyr. Ar unwaith, rhoddodd HCC ei strategaeth i ailddedchrau allforio ar wath - a hynny lai na 24 awr ar ôl codi'r gwaharddiant, yn Cibus, sioe fasnachol yn yr Eidal.

Rhoddodd hyn gychwyn i gyfnod o weithgareddau dwys mewn sioeau masnachol eraill. Bu modd i HCC, gyda chefnogaeth allforwyr, yrru ymlaen ag ymdrechion i werthu cig eidion ar sail yr enw da roedd Cig Oen Cymru

YNGLYN Â HYBU CIG CYMRU

Hybu Cig Cymru (HCC) yw'r unig gorff strategol ar gyfer hyrwyddo a datblygu diwydiant cig coch Cymru, a'i genhadaeth yw datblygu marchnadoedd proffidiol a chynaladwy er budd yr holl fudd-ddeliliaid yn y gadwyn gyflenwi yng Nghymru.

Mae HCC yn cynrychioli buddiannau cadwyn gyflenwi'r diwydiant drwy raglen o weithgareddau i ychwanegu gwerth at ein cynhyrchion o ansawdd rhagorol, rhoi gwybod amdanant a chodi ymwybyddiaeth ohonynt.



Hybu Cig Cymru - Meat Promotion Wales
Blwch SP 176
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 2YA
f 01970 625050
f 01970 615148
e info@hccmpw.org.uk
www.hccmpw.org.uk

Mae'r cwmni yn gyflyngedig trwy warant ac nid oes ganddo unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Rhif cofrestrïr cwmni: 4635113

Mae Hybu Cig Cymru - Meat Promotion Wales yn cael ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

© Hawffraint y Goron 2007
Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio unrhyw Arbeisiau Brehiniol a logos adranol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod bod hawffraint y deunydd yn perthyn i'r Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen.
Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau sy'n berthynol i'r hawffraint yn y ddogfen hon i
The Licensing Division, HMSO, St Clements House, 2-16 Colgate, Norwich, NR3 1BQ.
Ffacs: 01603 723000 neu e-bost: licensing@cabinet-office.x.gsi.gov.uk

Hybu Cig Cymru

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2006-07

Cyfrif I Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn Cig a Da Byw 2007
Cyfrif II Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Hybu Cig Cymru 2006-07

Cyflwynwyd i Dy'r Cyffredin yn unol ag adran 19 Deddf Amaethyddiaeth 1967
Rhoddwyd gorchymyn gan Dy'r Cyffredin i'w hargraffu 12 Gorffennaf 2007

HC 641-11
SE/2007/103

Llundain: Y Llyfrfa

£32.50
Ni ddylid eu gwerthu
ar wahân

Cyhoeddwyd gan Y Llyfrfa ac ar gael gan:

Ar Lein

www.tsosshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost

TSO

Blwch SP 29, Norwich NR3 1GN

Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522

Archebion ffacs 0870 600 5533

Archebwch drwy'r Llinell Frys Seneddol Lo-Call 0845 7 023474

E-bost book.orders@tso.co.uk

Ffôn testun 0870 240 37001

Siopau'r Llyfrfa

123 Kingsway, Llundain WC2B 6PQ

Ffôn 020 7242 6393 Ffacs 020 7242 6394

16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD

Ffôn 028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401

71 Lothian Road, Caeredin EH3 9AZ

Ffôn 0870 606 5566 Ffacs 0870 606 5588

Y Siop Lyfrau Seneddol

12 Bridge Street, Parliament Square, Llundain SW1A 2JX

Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol 020 7219 3890

Ffacs 020 7219 3866

E-bost bookshop@parliament.uk

Y We bookshop.parliament.uk

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

ISBN 978 0 10 294572 0

Hybu Cig Cymru - Meat Promotion Wales
ADRODDIAD BLYNYDDOL 2006-07

